Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.




27 Chwefror 2025

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Ysgrifennwyd gan: Tom Walters

# Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa:

# Unigolion a gedwir yn y ddalfa o gefndir ethnig leiafrifol

# Cynnwys

**Trosolwg, Cefndir, Pwrpas a Methodoleg** .......... 2
**Crynodeb o'r canfyddiadau** .......... 4
**Arsylwadau'r panel** .......... 8
**Atodiad - Canfyddiadau'r adolygiad o gofnodion y ddalfa** .......... 15

# Trosolwg, Cefndir, Pwrpas a Methodoleg

Mae tarddiad, pwrpas a rhesymeg Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa i'w gweld ar ein gwefan ac yn benodol o dan y cylch gorchwyl drwy'r ddolen hon: Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Ym mis Mehefin 2022, lansiodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Gweithredu Gwrth-hiliol yn amlinellu penderfyniad pob partner cyfiawnder troseddol i wneud popeth o fewn eu gallu, yn unigol ac ar y cyd, i gael gwared ar unrhyw fath o hiliaeth ar draws y system cyfiawnder troseddol. Y nod yw i Gymru fod yn wrth-hiliol erbyn 2030. Cymerwyd o'r Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol, o dan y weledigaeth:

> *Byddai'n naïf meddwl y gallwn ddileu hiliaeth yn gyfan gwbl yng Nghymru; ond gallwn ddechrau creu diwylliant dim goddefgarwch tuag at hiliaeth a newid ein systemau a'n sefydliadau i fynd ati i ddileu hiliaeth."*

I gyd-fynd â'r Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol, yn 2024, gwnaeth Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu lansio Cynllun Cydraddoldeb Strategol, sy'n nodi blaenoriaethau Heddlu Dyfed-Powys a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu dros y pedair blynedd nesaf o ran cyflawni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, sy'n cynnwys y canlynol:

a. Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sy'n anghyfreithlon o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
b. Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu;
c. Meithrin perthnasoedd da rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig ac unigolion nad ydynt ei rhannu.

Deddfwriaeth sy'n diogelu pobl rhag gwahaniaethu yn y gweithle ac yn y gymdeithas ehangach yw Deddf Cydraddoldeb 2010. Dyma'r nodweddion gwarchodedig hynny:

- oedran
- ailbennu rhywedd

- bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil;
- bod yn feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth
- anabledd
- hil gan gynnwys lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol
- crefydd neu gred;
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol

Gofynnwyd i'r panel asesu 30 o gofnodion y ddalfa a oedd yn canolbwyntio ar unigolion o gefndiroedd ethnig leiafrifol yn y ddalfa rhwng mis Mehefin a mis Rhagfyr 2024. Wrth asesu'r cofnodion, gofynnwyd iddynt ddefnyddio'r canllawiau canlynol gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, yn benodol o'r '*Canllawiau ar gyfer Trin Honiadau o Wahaniaethu*':

> *"Y prawf ar gyfer gwahaniaethu uniongyrchol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw 'a gafodd yr unigolyn ei drin yn llai ffafriol oherwydd nodwedd warchodedig?' Mae 'llai ffafriol' yn awgrymu cymhariaeth. Yn yr un modd, y prawf ar gyfer gwahaniaethu anuniongyrchol yw bod polisi, arfer neu weithdrefn yn rhoi pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig benodol dan 'anfantais benodol'."*

Dyma enghraifft o'r set o gwestiynau y gofynnwyd i'r panel eu hystyried:

# Crynodeb o’r canfyddiadau

Isod mae crynodeb o rai o ganfyddiadau’r panel:

## Pwyntiau cadarnhaol:

**Dim arwyddion o wahaniaethu**

O werthuso pob un o’r 30 o gofnodion y ddalfa, ni nododd y panel unrhyw bryderon uniongyrchol nac amlwg yn ymwneud ag unrhyw unigolyn a gedwir yn y ddalfa o gefndir ethnig leiafrifol yn cael ei drin yn llai ffafriol.

**Hawliau a hawlogaethau**

Rhoddwyd hawliau i bob unigolion a gedwir yn y ddalfa naill ai wrth gofrestru neu yn ddiweddarach yn ystod y cyfnod yn y ddalfa.

**Dillad risg arbennig**

O’r 30 o gofnodion a adolygwyd, ni roddwyd unrhyw unigolyn a gedwir yn y ddalfa mewn dillad gwrth-rwygo ac ni chafodd eu dillad eu tynnu oddi arnynt drwy rym.

**Unigolion benywaidd a gedwir yn y ddalfa**

Cynigiwyd nwyddau mislif i bob menyw a neilltuwyd swyddog o’r un rhyw iddynt.

**Hylendid**

Cynigiwyd cyfleusterau hylendid i bob unigolyn a gedwir yn y ddalfa gan gynnwys cawodydd neu gynhyrchion ymolchi dwylo.

**Cyfnod yn y ddalfa**

Yr amser cyfartalog a aeth heibio o'r pwynt y cyrhaeddodd yr unigolyn y ddalfa a chael awdurdod i'w gadw yn y ddalfa oedd 30 munud a'r amser cyfartalog y cadwyd unigolyn yn y ddalfa oedd 16 awr. Mae hyn yn llai o amser o'i gymharu ag amseroedd cyfartalog adroddiadau eraill Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa, sef ar gyfartaledd, fod unigolyn yn y ddalfa yn cael ei gadw am 18 awr a 34 munud.

**Lefel arsylwi**

Cofnododd y panel gadarnhad o 93% bod pob risg o ran unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi'i ystyried gyda dau gofnod yn cael eu hystyried yn amherthnasol ar sail yr amser y cadwyd yr unigolion a gedwir yn y ddalfa yn y ddalfa.

**Gweithiwr proffesiynol gofal iechyd**

O'r 10 o unigolion a gedwir yn y ddalfa a oedd angen gweld y gweithiwr proffesiynol gofal iechyd, profodd bedwar ohonynt oedi. Fodd bynnag, nododd y panel fod staff wedi codi ac ymdrin â phryderon mewn modd proffesiynol ar sawl achlysur, gan nodi bod ymddygiad rhai unigolion a gedwir yn y ddalfa wedi cyfrannu at yr oedi cyn gweld y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

**Noeth-chwiliad**

O'r 30 o gofnodion a adolygwyd, dim ond saith a noeth-chwiliwyd. O'r rhai a noeth-chwiliwyd, cytunodd y panel fod rheswm cymesur dros wneud hynny yn achos chwech o'r cofnodion, ond cwestiynodd y sail dros un noeth-chwiliad. Trafodir hyn ymhellach ar dudalen 11 o'r adroddiad.

## Meysydd i'w gwella:

**Cyfieithwyr ar y pryd**

Roedd anawsterau'n gysylltiedig â chael cyfieithydd ar y pryd ar gyfer rhai ieithoedd yn golygu bod cynrychiolaeth gyfreithiol wedi'i gohirio ac mewn un achos, cafodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa ei ryddhau ar fechnïaeth nes y gellid dod o hyd i gyfieithydd.

**Rhestr wirio i blant**

Er mai dim ond un achos allan o'r 30 a oedd yn cyfeirio at unigolyn ifanc a gedwir yn y ddalfa, ni chofnodwyd y rhestr wirio yn y ddalfa, llais y plentyn na'r eiliadau cyraeddadwy ar gyfer y cofnod dalfa hwn.

**Dyraniad benywaidd**

O'r chwe chofnod a gofnodwyd fel menywod, nid oedd gan bedwar unrhyw fanylion yn nodi a oedd swyddog benywaidd wedi cyflwyno ei hun.

**Eitemau crefyddol**

O'r 30 o gofnodion, darparwyd ar gyfer eitemau crefyddol 17 o unigolion a gedwir yn y ddalfa (57%). Er bod hwn yn welliant, roedd 10 o gofnodion heb unrhyw fanylion wedi'u cofnodi mewn perthynas ag eitemau crefyddol.

**Bylchau yn y darpariaethau a ddarperir i unigolion a gedwir yn y ddalfa**

Er bod 87% o'r unigolion a gedwir yn y ddalfa wedi cael cynnig bwyd a lluniaeth, roedd tri chofnod y ddalfa lle nad oedd hyn wedi'i gofnodi ac mewn un achos nid oedd unrhyw dystiolaeth bod bwyd na diod wedi'u cynnig i'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn ystod ei gyfnod yn y ddalfa. Yn ogystal, roedd bylchau yn y cyfarwyddiadau i'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa fod yr ardal doiled wedi'i chuddio gan lun picsel, cyfarwyddiadau i'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa am gloch y gell a gofynion dietegol.

**Gwasanaethau cynorthwyol**

Dim ond 50% o unigolion a gedwir yn y ddalfa a gafodd gynnig gwasanaethau cymorth o'i gymharu â 33% na chafodd gynnig a 17% nad oedd hyn yn berthnasol iddynt. Awgrymodd pump o'r 30 o gofnodion y ddalfa a archwiliwyd nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod cysylltiad wedi'i wneud â gwasanaethau cymorth neu iechyd meddwl yn ystod cyfnod yr unigolion a gedwir yn y ddalfa.

# Arsylwadau'r panel

Cynhyrchwyd sylwadau'r heddlu gan Andrew Rogers, Arolygydd Gwasanaethau'r Ddalfa ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys.

| Thema | Arsylwadau | Ymateb yr heddlu |
|---|---|---|
| **Pryderon am sgôr Coch Melyn Gwyrdd coch** | 1) Mynegodd aelodau'r panel bryderon penodol mewn perthynas ag un unigolyn a gedwir yn y ddalfa a gafodd ei arestio am gardota y tu allan i archfarchnad ac a gafodd ei gadw yn y ddalfa am 23 awr heb gyhuddiad a chafodd symiau bach o arian eu fforffedu. A allwch chi adolygu'r cofnod hwn a rhoi gwybod a oedd cadw'r unigolyn hwn yn y ddalfa yn gymesur?<br><br>2) Ar gyfer yr un cofnod y ddalfa, mynegodd aelod o'r panel bryderon nad oedd yn ymddangos bod iechyd meddwl yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi cael ei ystyried. O ystyried bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi datgelu ei fod yn cael anawsterau mewn mannau caeëdig ac nad Saesneg oedd ei iaith gyntaf, a ellid bod wedi gwneud mwy i ddiwallu anghenion yr unigolyn hwn?<br><br>3) Cynghorodd aelod ar wahân o'r panel nad oedd amgylchiadau'r arestio yn glir, gan nodi bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi'i arestio oherwydd arogl canabis; fodd bynnag, sut oedd swyddogion yn gwybod bod arogl y | *1) Mae cardota mewn man cyhoeddus yn drosedd a nodwyd bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn gysylltiedig â grŵp troseddu cyfundrefnol sy'n defnyddio cardota i gael arian/codi arian. Er na chyhuddwyd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa, rhoddwyd rhybudd oedolyn amodol iddo yn dilyn cyfaddefiad llawn i'r drosedd mewn cyfweliad. Roedd yr arian a fforffedwyd yn rhan o'r rhybuddiad amodol ac mae hyn wedi'i gynnwys o dan ddeddfwriaeth Deddf Cyfiawnder Troseddol lle gall amodau fod yn adsefydlol, yn waith gwneud iawn, neu'n gosbedigol. Ni chafodd yr arian ei atafaelu o dan Ddeddf Enillion Troseddau, fel yr awgrymwyd gan aelod o'r panel, lle byddai angen i hyn fod yn fwy na £1,000. Cyfaddefodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa i'r drosedd yn ystod y cyfweliad a bod yr arian yn ei heiddo wedi'i ennill o ganlyniad i'r drosedd. Nid oedd unrhyw rwymedigaeth ar yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa i dderbyn y rhybudd hwn a byddai gwarediad amgen fel cyhuddiad wedi cael ei ystyried. Mae cardota wedi bod yn drosedd ers blynyddoedd lawer o dan y Ddeddf Crwydraeth a chafodd ei gwneud yn drosedd gofnodadwy yn 2003. Nid yw'n ymddygiad gwrthgymdeithasol fel yr awgrymodd aelod o'r panel. Cafodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa ei rhyddhau oherwydd diffyg cyfieithydd Rwmaneg. Mae cofnod y ddalfa wedi'i gymeradwyo gan nodi bod Gwasanaethau Dehongli a Chyfieithu Cymru wedi hysbysu'r ddalfa bod tri achos eisoes i'w cwblhau gan* |

| | | |
|---|---|---|
| | canabis yn dod o fewn y cerbyd a oedd yn symud? | *yr unig gyfieithydd ar y pryd oedd ar gael. Oherwydd yr oedi/diffyg cyfieithydd ar y pryd, gorfodwyd staff y ddalfa i ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu ar y pryd o bell. Caiff adolygiad o'r opsiynau sydd ar gael i wella gwasanaethau cyfieithu ar y pryd ei archwilio.*<br><br>*2) Yn ymwneud â'r un unigolyn a gedwir yn y ddalfa a chofnod y ddalfa ag ym mhwynt un, ar ôl adolygu cofnod y ddalfa, cafodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa ei gofrestru yn y ddalfa gan ddefnyddio llinell iaith a byddai hyn wedi caniatáu iddi drosglwyddo'r holl wybodaeth berthnasol drwy gyfieithydd ar y pryd Rwmaneg. Ar ôl adolygu'r asesiad risg, ni ddatgelodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa unrhyw broblemau iechyd corfforol na meddyliol parhaus, heblaw am ei bod hi'n cael trafferth mewn mannau caeedig. Oherwydd nifer yr unigolion eraill a gedwir yn y ddalfa ar y pryd, ni fyddai wedi bod yn bosibl rhoi'r unigolion a gedwir yn y ddalfa yn rhywle arall yn y ddalfa heblaw am gell. Yn ogystal â hyn, nid oes unrhyw arnodiad ar gofnod y ddalfa a fyddai'n awgrymu bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi cwyno am fod yn y gell ar unrhyw adeg ac ymddangosodd yn dawel ac yn ufudd drwy gydol y cyfnod yn y ddalfa. Er, o'r wybodaeth yn yr asesiad risg, na fyddai unrhyw reswm dros asesiad gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, efallai y byddwn i wedi ceisio adolygiad gan y gweithiwr gofal iechyd oherwydd gallai'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa fod yn ddigartref a gallai fod problemau iechyd sylfaenol ganddi. Gallai fod gwendidau sylfaenol eraill fel cam-fanteisio, masnachu, mewnfudo, ac ati.*<br><br>*3) Rwyf wedi adolygu'r digwyddiad a chofnod y ddalfa. Er mwyn egluro'r amgylchiadau, roedd yr unigolyn a* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *gedwir yn y ddalfa yn deithiwr yn y sedd gefn mewn cerbyd a oedd yn destun gwiriad stopio o dan ddeddfwriaeth Deddf Traffig Ffyrdd. Wrth siarad â meddianwyr y cerbyd, gellid arogli canabis yn dod o fewn y cerbyd, tra bod y cerbyd yn segur. Ffurfiodd y swyddog arestio sail ar gyfer chwiliad o dan Adran 23 o Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau ac yn ystod y chwiliad daethpwyd o hyd i swm o ganabis dan ofal yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa. Wedi hynny, arestiwyd, cyhuddwyd a chadwyd yr unigolyn yn y ddalfa am sawl trosedd gan gynnwys meddu ar gyffuriau dosbarth B gyda'r bwriad o'u cyflenwi.* |
| **Darpariaethau yn y ddalfa** | - Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi cael cynnig unrhyw fwyd na diodydd yn ystod ei gyfnod hir yn y ddalfa nac wedi gofyn amdanynt.<br>- Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod deunydd tynnu sylw na deunydd darllen wedi'u darparu. | *- Gwiriwyd cofnod y ddalfa ac nid oes unrhyw gofnodion yn ymwneud â phryd o fwyd/diod nac unrhyw arnodiadau eraill i ddweud bod y naill neu'r llall wedi'i wrthod gan yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa. Adborth i'w roi i'r staff dan sylw.*<br>*- Gwiriwyd cofnod y ddalfa ac ni chafwyd unrhyw gofnodion yn ymwneud â deunydd darllen yn cael eu cynnig. Fodd bynnag, efallai nad yw'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi gofyn amdanynt. Mae pob unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn cael rhestr o eitemau y gallant ofyn amdanynt wrth lofnodi am eu hawliau a'u hawlogaethau, sy'n cynnwys pecynnau hylendid, bwyd/diod, cyfleusterau golchi, deunydd darllen, ymarfer corff a siarad â rhywun yn breifat.* |
| **Dyraniad benywaidd** | Nododd un aelod o'r panel mai'r rheswm pam na neilltuwyd swyddog benywaidd i'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa oedd oherwydd ei fod yn uniaethu fel gwryw. Os nododd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa ei fod yn ddyn, a ddylai rhingyll y ddalfa fod wedi cofnodi hyn yn | *Adolygwyd cofnod y ddalfa ac mae'r ddalfa wedi cymeradwyo cofnod y ddalfa ynghylch y mater hwn. Roedd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn Fwlgaraidd ac roedd angen cyfieithydd ar y pryd o'r llinell iaith i gwblhau'r weithdrefn cofnodi yn y ddalfa. Mae swyddog y ddalfa yn cofnodi, er bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn ymddangos yn wrywaidd, ei fod* |

| | | |
|---|---|---|
| | ystod y broses o gofrestru'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa? | *yn credu bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn fenywaidd. Gofynnodd swyddog y ddalfa i'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa pa rywedd yr oedd yn uniaethu ag ef, a dywedodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa ei fod yn wrywaidd. Gofynnodd swyddog y ddalfa hefyd beth oedd ei ryw pan gafodd ei eni, ond gwrthododd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa ateb y cwestiwn hwn. Oherwydd hyn, roedd y swyddog cadwraeth o'r farn bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi'i eni'n fenyw a'i fod bellach yn uniaethu fel gwryw, felly dewisodd yr adran hunaniaeth gwryw traws a fyddai'n gywir.* |
| **Cyfieithwyr ar y pryd** | Bu dau achlysur pan na ellid darparu cyfieithydd ar y pryd oherwydd yr anawsterau wrth gael cyfieithydd yn yr iaith a siaredir gan yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa. Ar un achlysur, cafodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa ei ryddhau ar fechnïaeth heb gael cyfweliad oherwydd ei fod yn siarad Slofaceg ac roedd oedi pellach cyn i'r cyfreithiwr gyrraedd oherwydd argaeledd a chyrhaeddiad cyfieithydd ar y pryd a oedd yn siarad Bwlgareg a oedd yn gorfod teithio o Loegr. A yw'r darpariaethau sydd ar waith ar gyfer cyfieithwyr ar y pryd yn ddigonol i ddiwallu anghenion Dyfed-Powys? | *Gwasanaethau Dehongli a Chyfieithu Cymru sy'n ymdrin â phob cais am gyfieithwyr ar y pryd. Amser teithio sy'n achosi oedi gan amlaf, yn dibynnu ar leoliad y cyfieithydd ar y pryd sydd ar gael, neu ddiffyg neu brinder cyfieithydd ar gyfer iaith benodol. Yn anffodus, nid yw hyn o fewn rheolaeth Heddlu Dyfed-Powys, a gall nifer y cyfieithwyr ar y pryd amrywio'n fawr yn dibynnu ar yr iaith. Fodd bynnag, defnyddir llinell iaith hefyd ar gyfer cyfieithu ar y pryd dros y ffôn, a defnyddir hwn bob amser ar gyfer y weithdrefn cofnodi i'r ddalfa ond gellir ei ddefnyddio hefyd ar gyfer cynnal cyfweliad os nad oes cyfieithydd ar y pryd yn gallu mynychu wyneb yn wyneb.* |
| **Mynediad at gyfreithiwr** | -Ymddengys fod mynediad at gyfreithiwr wedi'i gysylltu â phryd yr oedd y tîm ymchwilio yn barod i gyfweld â'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa. A allwch chi roi gwybod a yw hyn yn wir, ac os felly, a yw hyn yn cael ei ystyried yn drefn arferol? | -*Ni fyddai hyn wedi bod yn wir. Gall pob unigolyn a gedwir yn y ddalfa gysylltu â'i gyfreithiwr (a enwir neu ar ddyletswydd) ar unrhyw adeg dros y ffôn pan fydd dyletswyddau'n caniatáu i staff y ddalfa ddarparu ar gyfer hyn. Fodd bynnag, ni fydd cyfreithwyr yn mynychu'r ddalfa nes bod swyddogion yn barod i gynnal cyfweliad. Y rheswm dros hyn yw oherwydd gallu ac ymrwymiadau'r cyfreithiwr ei hun ac felly nid* |

| | | |
|---|---|---|
| | -Nododd y panel ar ddau achlysur nad oedd cofnod yn manylu ar gyswllt y cyfreithiwr, y math o gyswllt na'r amser cyrraedd. | *yw'n fodlon teithio i'r ddalfa i roi cyngor wyneb yn wyneb, y gellid ei ddarparu dros y ffôn, ac yna gadael cyn gorfod dychwelyd yn ddiweddarach yn y dydd. Mae rhai cyfreithwyr yn teithio mwy nag awr i gyrraedd y ddalfa.*<br>*-Mae gan ddau o gofnodion y ddalfa gofnodion yn cyfeirio at yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yng nghwmni cyfreithiwr neu'n siarad â chyfreithiwr, yn ogystal â'r trosglwyddiadau i'r ystafell ymgynghori ac oddi yno. Nid oes gan un o gofnodion y ddalfa unrhyw gofnodion sy'n ymwneud â'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn siarad â chyfreithiwr. Nid oes yr un o'r cofnodion yn cadarnhau'r amser y cyrhaeddodd y cyfreithiwr y ddalfa. Ymddengys fod hyn yn thema sy'n codi dro ar ôl tro yn ystod archwiliadau a byddwn yn ystyried anfon negeseuon at yr heddlu cyfan ynghylch hyn.* |
| **Lefel arsylwi** | Ni allai un aelod o'r panel ddod o hyd i fanylion am y lefel arsylwi yng nghofnod y ddalfa.<br>Nododd aelod arall o'r panel na chadwyd at y lefel arsylwi. Nodasant nad oedd y lefel arsylwi wedi'i fodloni yn union o fewn yr amserlen o 30 munud a bod yr adolygiad dros 30 munud yn hwyr ac nad oedd unrhyw reswm wedi'i roi dros yr oedi. | *Mae lefelau arsylwi wedi'u cofnodi ar y cynllun gofal. Y lefel arsylwi gychwynnol oedd dau wiriad bob 30 munud (gwiriadau deffro) gan fod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi yfed alcohol. Yna newidiwyd lefelau arsylwi i un bob 30 munud gan fod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi deffro'n dda ac wedi dangos arwyddion o sobri.*<br><br>*Rwyf wedi adolygu amseroldeb y gwiriadau, roedd y gwiriad cyntaf chwe munud yn hwyr, ond cynhaliwyd yr holl wiriadau eraill yn gynnar a chynhaliwyd rhai 10 munud yn gynnar. Ni wnaed sylwadau ar hyn gan yr aelod panel a oedd yn adolygu. Ni allaf ddod o hyd i unrhyw wiriadau a oedd dros 30 munud yn hwyr fel yr awgrymwyd gan aelod y panel. Bydd achlysuron pan fydd gwiriadau'n cael eu cymeradwyo'n hwyrach nag y cânt eu cynnal mewn gwirionedd, yn enwedig pan fydd nifer o unigolion yn y ddalfa yn cael eu gwirio ar* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *yr un pryd a bod gofyn i staff ddiweddaru sawl gwiriad ar wahanol gofnodion y ddalfa.* |
| **Gwasanaethau cynorthwyol** | Roedd pump o'r 30 o gofnodion y ddalfa a archwiliwyd yn awgrymu nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod cysylltiad wedi'i wneud â gwasanaethau cymorth neu iechyd meddwl yn ystod cyfnod yr unigolion a gedwir yn y ddalfa. A ystyrir hyn y gymesur? | *Mae pob un o'r pum cofnod dalfa wedi cael eu gwirio ac ni fyddai angen atgyfeirio'r un o'r unigolion a gedwir yn y ddalfa at wasanaethau cymorth na gwasanaethau iechyd meddwl. Atebodd pob un o'r pum unigolyn a gedwir yn y ddalfa 'na' i'r cwestiwn a oedd ganddynt unrhyw broblemau iechyd meddwl parhaus neu ddibyniaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol, cyffuriau neu gamblo. Gwrthododd pob un o'r pum unigolyn a gedwir yn y ddalfa siarad â gweithiwr atgyfeirio arestio hefyd. Mae'r holl gwestiynau a gwybodaeth hyn wedi'u cynnwys yn yr asesiad risg.* |
| **Noeth-chwiliad** | Holodd un aelod o'r panel a oedd sail gymesur i gynnal noeth-chwiliad ar yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa. Fe wnaeth gwestiynu'r rhesymeg a ddarparwyd, sef bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa dan amheuaeth o gyflenwi cyffuriau dros linellau cyffuriau ac wedi methu â stopio i'r heddlu. Nododd aelod y panel fod arogl cryf o ganabis yn dod o'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa, ac roedd ei gar a'i eiddo eisoes wedi cael eu harchwilio. | *Byddwn i'n dadlau bod digon o sail i awdurdodi noeth-chwiliad o dan yr amgylchiadau hyn. Roedd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa dan amheuaeth o fod yn ymwneud â chyflenwi cyffuriau llinellau cyffuriau lle mae cuddio/pecynnu yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin gan unigolion a ddrwgdybir. Roedd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn dal i arogli'n gryf o ganabis wrth gyrraedd y ddalfa, i ffwrdd o'r cerbyd, a allai awgrymu bod gan yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa ganabis wedi'i guddio arno o hyd. Rôl swyddog y ddalfa yw rheoli risg a byddai unrhyw gyffuriau cudd yn peri risg sylweddol i'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa. I'w nodi, awdurdodwyd chwiliadau cerbyd a chyfeiriad cartref yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa gan arolygydd cyn cynnal y noeth-chwiliad ac ni chawsant eu chwilio mewn gwirionedd cyn chwilio'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa.* |
| **Rhestr wirio i blant** | Ar gyfer yr unig gofnod dalfa ieuenctid a adolygwyd, ni chwblhawyd rhestr wirio i blant yn y ddalfa, llais y plentyn na'r eiliadau cyraeddadwy ar gyfer y cofnod hwn. | *Mae aelod y panel yn gywir. Ni chwblhawyd y rhestr wirio, felly ni chwblhawyd unrhyw eiliad cyraeddadwy ac nid oedd unrhyw gofnod yn cwmpasu llais y plentyn. Tynnir sylw at hyn yn ystod archwiliadau* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *sicrhau ansawdd misol lle adolygir 100% o'r plant sydd yn y ddalfa.* |

# Atodiad - Canfyddiadau'r adolygiad o gofnodion y ddalfa

Mae'r data isod yn amlinellu canlyniadau'r ffurflenni adborth a gwblhawyd gan aelodau'r panel a ddadansoddwyd i nodi'r pethau cadarnhaol a'r meysydd sydd angen eu gwella ym mhob maes penodol o'r ddalfa gan ganolbwyntio ar unigolion o gefndiroedd ethnig leiafrifol a gedwir yn y ddalfa. Mae adran hon yr adroddiad yn atodol i roi cyd-destun i'r adrannau *Crynodeb o'r canfyddiadau* ac *Arsylwadau'r panel* uchod. Gwelwyd holl gofnodion y ddalfa o fis Mehefin i fis Rhagfyr 2024.

**Demograffeg**









**Cyfran y dalfeydd sy’n cadw unigolion o gefndiroedd ethnig leiafrifol yn y ddalfa**



## Amser cyrraedd y ddalfa







### Yr amser a aeth heibio o gyrraedd i gael awdurdod i'w gadw am gyfnod yn y ddalfa

- Yr amser ar gyfartaledd a aeth heibio o'r pwynt y cyrhaeddodd unigolyn y ddalfa a chael awdurdod i'w gadw am gyfnod yn y ddalfa oedd 30 munud.
- Yr amser aros uchaf oedd tair awr a 57 munud.
- Yr amser cyflymaf i unigolyn a gedwir yn y ddalfa gael awdurdod i'w gadw am gyfnod yn y ddalfa oedd dwy funud.

### Cyfanswm yr amser yn y ddalfa

- Yr amser ar gyfartaledd y cadwyd unigolyn yn y ddalfa oedd 16 awr.
- Yr amser hiraf y cadwyd unigolyn yn y ddalfa oedd 30 awr a 59 munud.
- Mewn cyferbyniad, yr amser byrraf y cadwyd unigolyn a gedwir yn y ddalfa am gyfnod yn y ddalfa oedd tair awr a phum munud.

## Darpariaethau yn y ddalfa
















- Roedd gan y panel y sylwadau canlynol mewn perthynas â darpariaethau yn y ddalfa:

- Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi cael cynnig unrhyw fwyd na diodydd yn ystod ei gyfnod hir yn y ddalfa nac wedi gofyn amdanynt.
- Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod deunydd tynnu sylw na deunydd darllen wedi'u darparu.

## Unigolion benywaidd a gedwir yn y ddalfa
















- Nododd un aelod o’r panel mai’r rheswm pam na neilltuwyd swyddog benywaidd i’r unigolyn a gedwir yn y ddalfa oedd oherwydd ei fod yn uniaethu fel gwryw.

## Sgôr rhybudd cynnar yn y ddalfa

Mae sgôr rhybudd cynnar yn y ddalfa wedi'i hychwanegu at broses asesu risg safonol arferol yr heddlu i nodi risg morbidrwydd a marwolaeth unigolyn a gedwir yn y ddalfa. Asesiad a wneir gan staff y ddalfa i asesu anghenion iechyd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yw hwn.



## Hawliau a hawlogaethau




- Rhoddwyd hawliau i bob unigolion a gedwir yn y ddalfa naill ai yn ystod y cyfnod cofnodi yn y ddalfa neu yn ddiweddarach yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa.




**Am ba mor hir, ar ôl cael ei gadw yn y ddalfa, y gofynnodd yr unigolyn ifanc am gyfreithiwr?**

- Yr amser ar gyfartaledd a gymerodd i unigolyn a gedwir yn y ddalfa ofyn am gyfreithiwr oedd awr a 15 munud.
- Mewn 17 o'r 30 o achosion, gwnaeth yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa gais am gyfreithiwr o fewn awr.
- Y cyfnod hiraf i unigolyn a gedwir yn y ddalfa ofyn am gyfreithiwr oedd 7 awr a 30 munud.




**Yr amser a gymerodd i'r heddlu gysylltu â chyfreithiwr**

- Yr amser ar gyfartaledd a gymerodd oedd 3 awr a 50 munud i'r heddlu gysylltu â chyfreithiwr ar ddyletswydd.
- Y cyfnod hiraf o amser oedd 14 awr a 40 munud.
- Y byrraf oedd tair munud.




**Yr amser a gymerodd i gyfreithiwr gyrraedd o'r pwynt cysylltu**

- Yr amser ar gyfartaledd a gymerodd i gyfreithiwr gyrraedd ar ôl cael cais oedd 9 awr a 28 munud.
- Nododd y panel ar ddau achlysur nad oedd cofnod yn manylu ar gyswllt y cyfreithiwr, y math o gyswllt na'r amser cyrraedd.
- Gwnaeth y panel y sylwadau canlynol ar yr amgylchiadau yn ymwneud â'r oedi gyda'r cyfreithiwr:

1) Oedi cyn i'r cyfreithiwr gyrraedd oherwydd argaeledd a chyrhaeddiad cyfieithydd ar y pryd sy'n siarad Bwlgareg a oedd yn gorfod teithio o Loegr.
2) Aros am gyfieithydd ar y pryd oherwydd amser y nos y cadwyd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa.
3) Cafodd y cyfreithiwr ei ddal yn ôl oherwydd ymrwymiadau llys.
4) Ymddengys fod mynediad at gyfreithiwr yn gysylltiedig â phryd yr oedd y tîm ymchwilio yn barod i gyfweld â'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa.

5) Ni ellid darparu cyfieithydd ar y pryd oherwydd yr iaith yr oedd yr unigolyn yn ei siarad; felly, cafodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa ei ryddhau ar fechnïaeth heb gael cyfweliad.

## Lefel arsylwi







- Bernir lefel y risg ar bedair lefel.
- Lefel 1 Cyffredinol (o leiaf unwaith yr awr)
- Lefel 2 Ysbeidiol (bob 30 munud)
- Lefel 3 Cyson (arsylwi cyson ar deledu cylch cyfyng ac yn hygyrch bob amser)
- Lefel 4 Yn Gorfforol Agos (dan oruchwyliaeth gorfforol agos).
- Cofnododd y panel gadarnhad o 93% bod pob risg o ran unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi'i ystyried gyda dau gofnod yn cael eu hystyried yn amherthnasol ar sail yr amser y cadwyd yr unigolion a gedwir yn y ddalfa yn y ddalfa.
- Ni allai un aelod o'r panel ddod o hyd i'r manylyn hwn yn ei gofnod y ddalfa.




- Nododd un aelod o'r panel na ddilynwyd y lefel arsylwi. Nododd nad oedd y lefel arsylwi wedi'i chyrraedd yn union o fewn yr amserlen o 30 munud a bod yr adolygiad dros 30 munud yn hwyr ac nad oedd unrhyw reswm wedi'i roi dros yr oedi.







- Gwnaeth y panel y sylwadau canlynol mewn perthynas â'r lefelau arsylwi:

1) Cyfeiriodd chwe sylw at sut roedd y lefel a gofnodwyd yn briodol a sut y cadwyd ati.
2) Mewn un achos, codwyd y lefel arsylwi i bedwar oherwydd argyfwng meddygol ac roedd angen i'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa fynd i'r ysbyty am driniaeth.
3) Bu dau achlysur pan na chadwyd at yr arsylwadau bob 30 munud.

## Gwasanaethau cynorthwyol




- Cynigiwyd gwasanaethau cymorth i 50% o unigolion a gedwir yn y ddalfa o'i gymharu â 33% nad chafodd gynnig gwasanaethau cymorth a 17% nad oedd hyn yn berthnasol.
- Pwysleisiodd aelodau'r panel nad oedd gwasanaethau cymorth yn berthnasol oherwydd y canlynol:

1) Roedd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa eisoes yn cael cymorth ar gyfer ei iechyd meddwl.
2) Ni chafodd ei gofnodi yng nghofnod y ddalfa.

- Roedd pump o'r 30 o gofnodion y ddalfa a archwiliwyd yn awgrymu nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod cysylltiad wedi'i wneud â gwasanaethau cymorth neu iechyd meddwl yn ystod cyfnod yr unigolion a gedwir yn y ddalfa.

## Gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl







• Nododd y panel y sylwadau canlynol mewn perthynas â gweithiwr proffesiynol gofal iechyd:

*1) "Nodwyd bod dirywiad wedi bod yn iechyd meddwl yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa rhwng yr arestiad cyntaf ar 13 Awst 2024 a'r arestiad hwn ar 27 Awst 2024, ac roedd lefel yr arsylwadau yn adlewyrchu hyn. Mae'r cofnod yn nodi bod asesiad ffit i'w ryddhau i'w gynnal gan weithiwr proffesiynol gofal iechyd; nid yw'n glir a ddigwyddodd hyn. Cofnodwyd bod gwybodaeth briodol ynghylch cymorth iechyd meddwl wedi'i rhoi cyn rhyddhau.*

*2)* **Nodwyd bod staff wedi codi ac ymdrin â phryderon mewn modd proffesiynol ar sawl achlysur gan nodi bod rhai unigolion a gedwir yn y ddalfa yn ymddwyn yn ymosodol, bod eraill yn gwrthod ateb cwestiynau ynghylch hunan-niweidio ac eraill yn cyfeirio at eu hiechyd meddwl a straen mewn amgylcheddau caeedig; cawsant eu harsylwi a'u monitro'n amlach o ganlyniad.**

**Dillad risg arbennig/dillad gwrth-rwygo**







- O'r 30 o gofnodion y ddalfa a adolygwyd, ni ddarparwyd dillad risg arbennig i unrhyw unigolyn yn y ddalfa ac ni wnaeth yr heddlu dynnu dillad drwy rym.

## Noeth-chwiliad




**c**

- Nododd un aelod o’r panel nad oedd rhesymeg dda dros gynnal noeth-chwiliad.
- Nid oedd oedolyn priodol yn bresennol ar gyfer unrhyw un o’r noeth-chwiliadau a gynhaliwyd. Dim ond un cofnod oedd yn cynnwys unigolyn ifanc ac ni chafodd ei noeth-chwilio.




- Cododd y panel y sylwadau canlynol mewn perthynas â noeth-chwiliadau:

1) Roedd aelod o’r panel o’r farn bod y rhesymeg yn briodol gan fod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa eisiau newid ei drowsus yn hytrach na thynnu’r llinynnau.
2) Cwestiynodd aelod arall o’r panel y rhesymeg a roddwyd dros gofnod y ddalfa i noeth-chwilio’r unigolyn a gedwir yn y ddalfa a oedd dan amheuaeth o gyflenwi cyffuriau llinellau cyffuriau a methu â stopio i’r heddlu. Nododd aelod o’r panel fod arogl cryf o ganabis yn dod o’r unigolyn a gedwir yn y ddalfa ac roedd ei gar a’i eiddo eisoes wedi cael eu chwilio.

## Iechyd meddwl, oedolion priodol a bregusrwydd eraill




- Yr amser ar gyfartaledd i swyddog y ddalfa gysylltu ag oedolyn priodol oedd awr ac un funud, a’r amser ar gyfartaledd i’r unigolyn a gedwir yn y ddalfa gysylltu ag oedolyn priodol am y tro cyntaf oedd 6 awr a 39 munud.
- Y cyfnod hiraf oedd 19 awr ac mewn cyferbyniad, y byrraf oedd 20 munud.
- Yr amser ar gyfartaledd a gymerodd ar ôl i unigolion gael ei gofnodi yn y ddalfa ar gyfer y cyswllt cyntaf rhwng yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa a’r oedolyn priodol oedd 7 awr a 46 munud.




- Nododd aelod o’r panel na chanfuwyd unrhyw fanylion oherwydd bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn y ddalfa am gyfnod byr cyn cael ei ryddhau ar fechnïaeth.

### Plant yn y ddalfa

Mae'n bwysig nodi mai dim ond un cofnod dalfa oedd ar gyfer unigolyn a fyddai'n cael ei nodi fel unigolyn ifanc (dan 18 oed).

- **Cyhuddwyd y plentyn o'r drosedd a chafodd ei gadw dros nos. Y rhesymeg a ddarparwyd dros gadw'r plentyn dros nos oedd un a ddarparwyd gan swyddog o reng uwch-arolygydd yn nodi bod ganddo sail resymol dros gredu bod angen cadw'r plentyn yn y ddalfa heb ei gyhuddo i sicrhau a chadw tystiolaeth yn ymwneud â'r drosedd.**
- Felly, ni cheisiwyd unrhyw ofal amgen.
- Ni chwblhawyd rhestr wirio i blant yn y ddalfa, llais y plentyn na'r eiliadau cyraeddadwy ar gyfer y cofnod hwn.

### Coch Melyn Gwyrdd

Ar ddiwedd pob cofnod y ddalfa a adolygwyd, gofynnwyd i'r panel adolygu'r meini prawf isod ac asesu eu graddfa gyffredinol o gofnod y ddalfa gan ddefnyddio'r sgôr Coch Melyn Gwyrdd:

| Enghreifftiau o reswm dros raddio | Camau gweithredu dilynol |
|---|---|
| Rhesymeg lawn wedi'i rhoi dros ddefnyddio grym, noeth-chwiliad neu ar gyfer unrhyw oedi gan asiantaethau allanol sy'n cefnogi'r sawl a gedwir yn y ddalfa mewn modd cyfiawn a chymesur. | Nid oes angen unrhyw gamau pellach ar hyn o bryd. |
| Mae pob hawl a hawlogaeth wedi'u rhoi i'r sawl a gedwir yn y ddalfa. | |
| Defnyddiwyd dulliau dad-waethygu clir, eitemau tynnu sylw ac ati i liniaru risg yr unigolyn a gedwir yn gaeth rhag hunan-niweidio bwriadol. | |
| Cyfiawnhad prin neu aneglur dros ddefnyddio'r dillad gwrth-niwed, defnyddio grym neu noeth-chwiliad. | Cyngor/hyfforddiant pellach i staff y ddalfa. |
| Dim digon o wybodaeth i benderfynu ar unrhyw oedi cyn i'r sawl a gedwir yn y ddalfa dderbyn ei hawliau i gael cynrychiolaeth gyfreithiol neu oedolyn priodol. | |
| Cofnodi hawliau a hawlogaethau mewn modd anghyson. | |
| Nid oes unrhyw resymeg neu nid yw cyfiawnhad yn gymesur. | |
| Penderfyniadau wedi'u gwneud heb wybodaeth am risg a heb unrhyw resymeg arall. | |

| | |
|---|---|
| **Oedi sylweddol wrth i'r sawl a gedwir yn y ddalfa weld gweithiwr proffesiynol gofal iechyd, defnyddio gwasanaethau cyfreithiol neu oedolyn priodol.** | **Mae angen archwiliad pellach mewn perthynas â diffyg rhesymeg. Achosion i'w codi gydag arolygydd y ddalfa.** |
| **Dim ystyriaeth amlwg i fregusrwydd y sawl a gedwir yn y ddalfa.** | |




Y rhesymeg a neilltuwyd i bob gradd lliw oedd asesiad/barn aelodau unigol y panel o gofnod y ddalfa y cawsant eu neilltuo iddo. Isod mae peth o'r rhesymeg a ddarparwyd gan y panel ar gyfer eu graddio:

| Gwyrdd | Melyn | Coch |
|---|---|---|
| *"Roedd staff y ddalfa yn trin yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa â pharch mawr"* | *"Unigolyn a gedwir yn y ddalfa sy'n ddinesydd tramor, dim ond 10 awr i mewn i'w gyfnod yn y ddalfa y sylweddolwyd bod ganddo anghenion iaith. Chwiliwyd am gyfieithydd ar y pryd ond nid oedd cyfieithwyr ar y pryd Telwgw ar gael felly parhaodd y cyfathrebu mewn Saesneg araf. Anodd barnu a oedd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn deall yn llawn yr hyn a gyfathrebwyd iddo - o ran diwallu anghenion lles yn ystod y cyfnod yn y ddalfa neu wrth cael rhybudd. Yn enwedig gan ei fod wedi gwrthod* | *"Dryswch rhwng swyddogion adolygu, roedd y cyntaf yn meddwl mai trosedd sbardun ydoedd, a'r ail yn anghytuno." Cafodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa ei gadw am 23 awr a'i ryddhau gyda rhybudd a £50 yn dlotach. Nid yw'n ymddangos yn gymesur nac yn rhesymol."* |

| | | |
|---|---|---|
| | *cyfreithiwr neu i gysylltu â'i uchel gomisiwn (er y cysylltwyd ag ef yn ddiweddarach)."* | |
| *"Ni welwyd unrhyw broblemau yng nghofnod y ddalfa, dilynodd y staff y broses gywir."* | *"Dim camau dilynol ar gais yr oedolyn priodol"* | *"Er bod cynnwys yr adroddiad yn dda, nid yw amgylchiadau'r arestio yn glir. Mae'r adroddiad yn nodi bod arogl canabis wedi'i ganfod yn y cerbyd. A oedd y car wedi cael ei stopio am reswm penodol, yna nodwyd yr arogl? Sut oedd arogl canabis wedi'i ganfod os oedd y car yn symud? Heb ei nodi'n glir yn yr adroddiad."* |
| *"Gydag anghenion iaith, darparwyd mynediad i'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa at y llinell iaith a chyfieithydd ar y pryd ac o fewn amser rhesymol o ystyried bod y cyfnod yn y ddalfa wedi digwydd yn hwyr yn y nos. Nid yw'n glir, fodd bynnag, a yw'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn wladolyn tramor gan na wnaed cynnig i gysylltu â'r llysgenhadaeth/uchel gomisiwn.* | *"Diffyg eglurder ynghylch darparu cyfieithydd ar y pryd i esbonio hawliau a hawlogaethau; dim tystiolaeth bod y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol wedi gweld yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa - er bod sawl cofnod yn dweud y "bydd yn gweld y gweithiwr proffesiynol gofal iechyd" a'i fod yn gofyn am feddyginiaeth lleddfu poen; adolygiadau cysgu wedi'u cofnodi - ond dim tystiolaeth bod gwybodaeth wedi'i chyfleu i'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa."* | *"Dim ystyriaeth i fregusrwydd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa. Soniwyd am iechyd meddwl. Nododd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa broblemau iechyd meddwl a'i fod yn dioddef o byliau o banig mewn mannau caeëdig. Roedd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn cael ei wirio bob hanner awr ond gan nad Saesneg oedd iaith gyntaf yr unigolyn, gellid bod wedi rhoi mwy o ystyriaeth i hynny."* |
| *"Gwyrdd. Ymdriniwyd â'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa gyda gofal ac urddas. Darparwyd blwch gweddi a llyfr ffydd. Pryder o ran yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn dangos anghysur o ganlyniad i lid yn achosi cosi poenus ar ei goesau a'i organau rhywiol. Gofal gan weithiwr proffesiynol gofal iechyd ac eli wedi'u rhoi."* | *"Rwyf wedi rhoi sgôr melyn i hwn, yn syml am y rheswm nad oedd y sawl a gedwir yn y ddalfa yn gallu cysylltu â'i berthnasau dros y ffôn i'w hysbysu am ei arestiad (ar ôl i'r gwaharddiad cyfathrebu gael ei godi) oherwydd nad oedd ffonau'r ddalfa yn gallu ffonio rhifau rhyngwladol. Gan nad oedd y sawl a gedwir yn y ddalfa yn Brydeiniwr, roedd ei ffrindiau/perthnasau dramor.* | *"Cefais anhawster dod o hyd i'r amser gwirioneddol y cyrhaeddodd y cyfreithiwr a'r amser y cyrhaeddodd yr oedolyn priodol. Fodd bynnag, gallaf weld yr amser y gofynnwyd amdanynt. Rhoddwyd estyniad o 12 awr i'r cyfnod cadw yn y ddalfa yn yr achos hwn, a dyna pam y cafodd ei gadw gyhyd yn y ddalfa. Mae'n rhaid i mi gofnodi hyn fel sgôr RAG o goch oherwydd… er bod y* |

| | | |
|---|---|---|
| | *"Mae'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi ceisio ffonio adref, ond nid yw ffonau Heddlu Dyfed-Powys yn gallu gwneud galwadau rhyngwladol."* | *sawl a gedwir yn y ddalfa o dan 18 oed ac wedi'i gadw yn adain ieuenctid y ddalfa, ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth yn y cofnodion o gofnodi cyfweliad eiliad cyraeddadwy, llais y plentyn na rhestr wirio i blant yn y ddalfa.* |